*Cadeirydd yr Arholwyr,*
*TAG (CBAC) Celf a Dylunio,*
*Proffil y Rôl a Ffurflen Gais*

# PROFFIL Y RÔL

**Pwrpas:**

Mae CBAC am recriwtio Cadeirydd yr Arholwyr. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am TAG Celf a Dylunio.

Cadeirydd yr Arholwyr sy'n gyfrifol am gynnal safonau'r pwnc ar draws y fanyleb o flwyddyn i flwyddyn. Cyfrifoldeb Cadeirydd yr Arholwyr hefyd yw monitro safonau'r Uwch Gymedrolwyr.

**Cyfrifoldebau:**

- cynorthwyo staff CBAC i gynnal safonau pwnc penodol ac ar draws manylebau gwahanol, lle y bo'n briodol, o gyfres i gyfres.
- cadeirio amrywiol gyfarfodydd gan gynnwys y cynadleddau arholwyr/cymedrolwyr a chyfarfodydd Dyfarnu.
- argymell ffiniau gradd i bob gradd ym mhob un o'r cymwysterau ar ddiwedd y broses ddyfarnu.
- paratoi adroddiadau ar y prosesau, yn ôl y gofyn.
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill y gall CBAC wneud cais rhesymol amdanynt.

Bydd angen i Gadeirydd yr Arholwyr fod ar gael am o leiaf **chwech** niwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae taliadau rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu'r cynadleddau arholiadau/cymedroli a'r cynadleddau Dyfarnu.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol:**

- gradd mewn pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â charmaine.cook@cbac.co.uk.
Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **5 Awst 2024**.

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk/ a chlicio ar 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Cadeirydd TAG (CBAC) Celf a Dylunio** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â: -


| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Emily Safadi |
| rob.reynolds@cbac.co.uk | | emily.safadi@cbac.co.uk |
| 02920 265 050 | | 02920 265 305 |